# Cyfarfod Mehefin 4/6/18.

Cofnodion Mai 1/5/18.

Presennol:- Mrs L Gillham, Mrs E A Parry(Cadeirydd 18-19), Mr N G Marten,Mr R Owen, Mrs E A Thomas-Jones a Mr K Hughes(Ynys Mon)

Ymddiheuriadau:- Mr P Jones.

Cadarnhau'r Cofnodion- Mrs E A Parry yn cynnig hefo Mrs E A Thomas-Jones yn eilio.

Agorwyd y cyfarfod hefo Mrs L Gillham yn croesawu Mrs EA Parry i'r Gadair ac fe dderbyniodd a diolch i Mrs Gillham am ei gwaith fel Cadeirydd dros y flwyddyn olaf.Croesawodd y Cadeirydd Bethan Morris (Cydlynydd Cymunedol) i drafod sut 'roedd ei swydd am weithio a cyfle i ymateb i gwestiynau or cyfarfod. Bydd Bethan yn agor ein cyfarfod mis nesa.

Symud ymlaen ar cyfarfod, penodwyd Mr N G Marten fel Is- Gadeirydd.

Materion yn Codi. I fod yn deg ar Adran Gynllunio 'roeddynt wedi cysylltu hefo Mr G jones cyn ebost Cyng Llinos Huws.Yn dilyn hyn mae yr ail gais wedi cyrrhaedd ac ar ol cryn drafod ei basio a wnaed.Ymateb ffafriol iawn i'r trip i ymweld ar gwaith trin dwr budr ar safle yn cael ei ddisgrifio fel un arbennig a all weithredu am flynyddoedd dros Llanfaethlu.Adran priffyrdd byth wedi delio a cwynion o Lanfwrog a Penterfyn. Mae hyn yn odd iawn, derbyniais ebost gan Priffyrdd yn chwilio am waith yn yr ardal ! Ond ebost at Gylch y Garn oedd felly y cam nesa oedd gofyn gawn ni roi cais i mewn ! Diddorol ond eto siomedig iawn.

Derbynwyd yr Ohebiaeth- Cefnogwyd dau gais Cynllunio, Caenethor a sied Bodowen.Arolwg Fewnol ac Allanol yn barod, y fewnol erbyn y 24ain o Fai ar allanol erbyn 6ed o Fehefin.Posibilrwydd y bydd saith o dai am ei adeiladu ar Maes Maethlu a chyfarfod yn y Ty Coffi ar nos Iau y 10ed o Fai, rhwng 4 a 6yh.Pasio i roi rhodd o £400 tuag at dori mynwentydd y ddwy Eglwys.

GOHEBIAETH 4/6/18.

| LLYTHYRAU | EBOST. |
|---|---|
| LL1;-Amb Awyr Cymru | E1:- Pwyllgor Safonau. |
| LL2:-D.D.Mon. | E2:-Ang Comp Solutions. |
| LL3:-B.H.I.B Ins Quote | E3:-Hawlia Tramwyo. |
| LL4:- Chwarae Cymru | E4:-Blaen Raglen Gwaith. |
| LL5:-Hags | E5:-Cyng K Hughes. |
| LL6:-Fforwm Iaith Mon. | |
| LL7:-Seafarers UK. | |
| LL8:-Bro Padrig-derbynneb. | |

LL9;-Gweler3.

LL10:-C.Y.M.-Cais cynllunio Ty Mawr.

UFA:- Colled i'r C.C. o glywed fod Mrs E A T-J yn ymddiswyddo,symud i ochre Gwalchmai dim tai addas ar gael yma,contractwyr yn talu'n well!Pawb yn dymuno'n dda iddi ar teulu.

AGENDA 4/6/18.

Bethan Morris.

Presennol

Ymddiheuriadau.

Cadarnhau'r Cofnodion.

Diogelu data.

Materion yn codi.

Gohebiaeth.

Newyddion o Langefni.-----U.F.A.-----£9,000.(amc...gyf...)